Medi 2024 – Mawrth 2025

# Tir

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

## Hyfforddiant achrededig

**36** o Gyrsiau Gwahanol

**165** o fusnesau

**222** o unigolion

**3427** awr

Roedd y cyrsiau'n cynnwys:

| Cyrsiau | Nifer yr hawliadau |
|---|---|
| Tryc Codi Telesgopig ar gyfer Tir Garw | 22 |
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Rheoli Cnofilod | 19 |
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel (PA1) a Defnyddio Plaladdwyr gan Ddefnyddio Offer Chwistrellwr Bŵm wedi'i Osod ar Gerbyd (PA2) | 18 |
| Cynnal a chadw llif gadwyn a thrawslifio | 17 |
| Cloddiwr 360 gradd â thrac (o dan a thros 10 tunnell) | 13 |

Adborth:
*"Dysgais lawer iawn ac mae gen i'r wybodaeth nawr ar sut i fynd i fynd i'r afael â llygod mawr yn fwy effeithiol nag oedd gen i o'r blaen."* Dyfarniad Lefel 2 mewn Rheoli Cnofilod

*"Mae'r cwrs hwn yn cynnig y cyfle i mi wneud mwy o waith cloddio o amgylch y fferm fel draenio ac agor ffosydd."* Cloddiwr 360 Gradd â thrac (o dan a thros 10 tunnell)

## E-ddysgu

**147** Unigolion a Gefnogir

**89** Busnesau a Gefnogir

| Mae'r modiwlau a gwblhawyd yn cynnwys | Unigolion wedi'u Hyfforddi |
|---|---|
| Uned Orfodol: Diogelwch Plaladdwyr | 56 |
| Cyflwyniad i Ffermio Cynaliadwy | 10 |
| Dechrau a Datblygu Garddwriaeth | 4 |
| Garddwriaeth – Nodi Plâu, Clefydau a Chwyn | 4 |
| Cylch Rheoli Gwrychoedd | 4 |

## Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol

**8 digwyddiad**

Roedd y pynciau'n cynnwys: Iechyd y Pridd, Rheoliadau llygredd amaethyddol a Thyfu eich protein eich hun

## Garddwriaeth

**Cynhaliwyd 11 digwyddiad Garddwriaeth i 71 o Unigolion o 64 o fusnesau gwahanol.**

Roedd y teitlau hyfforddiant yn cynnwys: Lluosogi heb fawn, tyfu llysiau organig ar raddfa cae, rheoli plâu yn integredig ar gyfer planhigion addurniadol.

Adborth: *"Roedd y tri siaradwr yn wybodus iawn, roedd y cyfuniad o'r tri yn dda gan eu bod yn adlewyrchu ei gilydd a arweiniodd at atebion mwy cyflawn."* Gweminar cnydau perllannau amgen

**50%** Mae **50%** o leoedd hyfforddiant yn cyd-fynd â'r Nodwedd Lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu mewnbynnau, maetholion a gwastraff o Reoli Tir yn Gynaliadwy – Rheoli maetholion, cynllunio a phrofi'r pridd.

### Cymorth Busnes Garddwriaeth

**43** Cynhaliwyd 43 sesiwn

**49** Unigolion

**38** o fusnesau gwahanol

Ymhlith y pynciau a drafodwyd roedd: Iechyd y Pridd, cynhyrchu coed brodorol, Rheoli Plâu yn Integredig, cynhyrchu organig ar raddfa cae.

Adborth: *"Roedd yr ymgynghorydd yn hynod wybodus ac yn hawdd mynd ato ac yn ddeallus hefyd. Mae'n unigolyn hawdd i weithio gydag ef a dysgu ganddo ac yn gefnogol iawn i lawer o wahanol safbwyntiau a lefelau profiad. O ganlyniad, byddwn yn bendant yn tynhau ein systemau cylchdro tyfu a pharatoi gwelyau cyn tymor y flwyddyn nesaf. Byddwn hefyd yn rhoi system gylchdro tail gwyrdd mwy trylwyr ar waith hefyd. Mae wedi fy helpu i deimlo'n fwy hyderus yn fy nghynlluniau."*

**27%** Canolbwyntiodd **27%** o'r sesiynau ar y nodwedd Lleihau, Ailddefnyddio ac Ailgylchu mewnbynnau o ran Rheoli Tir yn Gynaliadwy, fel Rheoli Plâu integredig.

## Cymorthfeydd

**14** cymorthfa wedi'u cwblhau

Roedd y pynciau'n cynnwys: Glaswelltir ac Amrywiaethu

## Clinigau

**63** o glinigau wedi'u cwblhau

Roedd y pynciau'n cynnwys: Glaswelltir a Phriddoedd

## Hwb Cyfnewid Gwybodaeth

Adolygiadau llenyddiaeth: Atafaelu Carbon mewn Priddoedd a Glaswelltiroedd, Dadansoddiad pridd PLFA

## Gwasanaeth Cynghori

Cefnogodd y Gwasanaeth Cynghori'r achosion canlynol o gyngor:

| Themâu wedi'u cynnwys | Enghreifftiau |
|---|---|
| Technegol – Rheoli Glaswelltir a Chnydau | 914 |
| Cynllun Rheoli Maetholion | 451 |
| Isadeiledd | 228 |
| Technegol – Rheoli a Pherfformiad Da Byw | 7 |
| Technegol – Cyngor yn ymwneud â Charbon | 5 |
| Cyngor Milfeddygol Arbenigol – Technegol | 4 |
| Cynllunio Busnes | 4 |
| Technegol – Rheoli Coetiroedd | 2 |
| Technegol – Iechyd a Lles Anifeiliaid a Bioddiogelwch | 1 |
| Technegol – Amaeth-amgylcheddol, gwasanaethau ecosystemau a bioamrywiaeth | 1 |
| Technegol – Effeithlonrwydd Ynni a Dŵr | 1 |

## Rhwydwaith Ein Ffermydd

Diweddariadau prosiect ar y fferm:

- Diweddariad ar brosiect Llysiau Menai – Terfynol | Cyswllt Ffermio
- Adfywio Coetir Presennol yn Glyn Arthur Drwy Reolaeth
- Gwndwn pori mewnbwn isel

## Dosbarthiadau meistr

Gweithgaredd:

**5** Dosbarth meistr uwch

**7** Mynediad dosbarth meistr

Adborth:
"Sesiwn wirioneddol ddefnyddiol ac addysgiadol"
"Cymysgedd da o gyflwyniad a rhannau ymarferol"
"Dysgais y cysylltiad rhwng agweddau cemegol, ffisegol a biolegol y pridd. Ac i ganolbwyntio ar yr 20% uchaf o dir a all ymateb i fewnbynnau".

## Grwpiau trafod

Cynhaliwyd 36 o gyfarfodydd grŵp trafod

**36** o gyfarfodydd

**193** o fynychwyr

**81.5 awr o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus**

Uchafbwyntiau: Canlyniadau dadansoddi grawn YEN, Gwrthsefyll tywydd eithafol, Cylchdroadau cnydau, Trin y tir cyn lleied â phosibl, Graddnodi gwasgarwyr gwrtaith

## Agrisgôp

Mae **22** o gyfarfodydd Agrisgôp wedi'u cynnal:

**142** o bobl yn bresennol

Treuliwyd **71.5** awr

Canolbwyntiodd grwpiau a gyfarfu yn ystod y cyfnod hwn ar:

Ymwelodd y grŵp ysgaw â Choed Tŷ Rhos lle siaradodd Aisha Mowat am y gwahanol fathau o ysgaw sydd ar gael yn ogystal â rhoi gwybodaeth am yr ysgaw gwyllt sydd ganddi. Trafodwyd yr her o dyfu ysgaw yn ystod hafau gwlyb o ystyried y pwysau gan wlithod. Y camau nesaf i'r grŵp yw datblygu cynllun ar gyfer y berllan a phenderfynu ar fathau a fydd yn cael eu cynnwys yn y cais am y grant ‚Coed ar eich Fferm' gyda Choed Cadw.

## Mentora

**203** o unigolion wedi cael mynediad at fentora

**291** o sesiynau mentora

**798.5** awr o fentora

**50%** o'r holl sesiynau yn ymwneud â'r thema hon

Mae dyfyniadau o ddyddiaduron mentora yn cynnwys:

1. Fe wnaethon ni edrych ar wahanol opsiynau ar gyfer gwrych bytholwyrdd / llain gysgodi o amgylch ardal gynhyrchu arddwriaethol. Bydd y mentai yn penderfynu pa fath o uchder / lled / cyfundrefn reoli sy'n gweddu orau i'w gyd-destun ac yn dewis o'r opsiynau a drafodwyd gennym.
2. Adolygiad o gynllunio cnydau, presennol ac arfaethedig. Cnydau i wirio proffidioldeb. Bylchau Cnydau. Cymhlethdod/nifer fawr o gnydau.
3. Taith gerdded o amgylch y fferm i edrych ar ansawdd y borfa a thrafod anghenion yr alpacas. Cynlluniau ar gyfer dyfodol y tir a'r busnes yn ogystal â'r hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn. Gweithio gyda'n gilydd ar ran un o'r cyllun pori.